**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Nick Bennett
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

24 Mai 2017

Annwyl Nick

**BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU) DRAFFT**

Diolch i chi am ddarparu rhagor o wybodaeth am eich amcangyfrifon gorau o'r costau i'r cyrff cyhoeddus y mae darpariaethau'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft yn effeithio arnynt.

Mae swyddogion y Cynulliad wedi llunio drafft cynnar o'r Memorandwm Esboniadol (ME) a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan gynnwys y costau a'r manteision a ddarparwyd gennych (Atodiad A).

Wrth ddatblygu'r ME, mae swyddogion wedi gwneud rhai rhagdybiaethau ac wedi nodi bod angen eglurhad neu wybodaeth ychwanegol mewn sawl lle. Byddwn yn ddiolchgar am eich mewnbwn ar yr ymholiadau (a ddangosir mewn testun italig yn y ME) ac am unrhyw sylwadau cyffredinol a allai fod gennych ar y ME drafft. Mae swyddogion wedi rhoi eglurhad pellach o'r ymholiadau penodol yn Atodiad B ac yn hapus i drafod yr ymholiadau hyn ymhellach gyda'ch swyddogion, dros y ffôn neu'n bersonol, er mwyn hwyluso datblygiad y ME, os byddai hynny'n ddefnyddiol.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried darpariaethau'r Bil drafft a baratowyd gan y Pwyllgor a'i rhagflaenodd ac mae wedi codi'r cwestiynau canlynol:

1. Pa feini prawf y byddech yn disgwyl eu sefydlu mewn perthynas â'ch ymchwiliadau eich hun o dan adran 5 o'r Bil drafft? Byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor gael gweld y meini prawf drafft.
2. Beth yw'r cyfiawnhad dros y disgresiwn a nodir yn adran 16(2), mewn cysylltiad â pharatoi a chyflwyno cynnig ymchwiliad o dan adran 4?

Byddwn yn ddiolchgar i gael eich ymateb i'r cwestiynau hyn a'r ymholiadau a nodwyd mewn perthynas â'r ME cyn gynted ag y bo modd er mwyn galluogi'r Pwyllgor i fwrw ymlaen â'r mater hwn.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Yn gywir

Simon Thomas AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English.*